Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyfeirnod
Your reference

Ein cyfeirnod
Our reference

Dyddiad
Date 11 Tachwedd 2019

Llinell uniongyrchol
Direct line 03000 256030

Ebost
Email: jason.thomas@llyw.cymru

Annwyl Gadeirydd

Stiwdios Pinewood

Ysgrifennaf atoch yn dilyn llythyr Andrew Slade dyddiedig 14 Mawrth 2019 mewn perthynas â Stiwdios Pinewood a ffermdy Penpil sydd ar y safle, ac yn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Roedd y llythyr blaenorol yn egluro sut roedd Cadw wedi ailasesu'r adeilad ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru bellach. Newidiwyd Penpil yn sylweddol yn yr 1980au a'r 1990au, gyda llawer o'r nodweddion gwreiddiol yn cael eu tynnu ohono neu eu niweidio bryd hynny. Yna llosgwyd yr adeilad yn ddifrifol yn yr 2000au cynnar ac mae wedi dirywio'n sylweddol yn sgil hynny. Digwyddodd hyn i gyd cyn i Lywodraeth Cymru brynu'r adeilad yn 2014. Mae'n amlwg bod y gwaith adnewyddu a'r tân wedi bod yn gyfrifol am golli llawer o'r hyn oedd o ddiddordeb hanesyddol. Nid oedd y ffabrig hanesyddol a oedd yn sail i'r penderfyniad gwreiddiol i'w restru gan yr adeilad mwyach.

Felly, dechreuodd Cadw y broses ymgynghori ar gyfer dadrestru'r eiddo ar 8 Mawrth 2019 a dadrestrwyd yr eiddo yn sgil hynny ar 11 Ebrill 2019.

Ers prynu'r eiddo, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn rheoli'r eiddo gan roi sylw priodol i'w ddirywiad yn ystod y deng mlynedd ers y tân, y risgiau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â hyn, y costau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu a'r defnydd cyfyngedig o'r adeilad yn y dyfodol. Fel arfer, y cam gweithredu a argymhellir mewn achos fel hyn yw dymchwel yr eiddo. Fodd bynnag, nid dyna a wnaed ar y pryd oherwydd statws rhestredig yr adeilad a'r posibilrwydd y geallai fod angen ei ddefnyddio yn y dyfodol mewn cysylltiad â'r stiwdios cyfagos. Am y rhesymau hyn, gwnaed yr adeilad yn ddiogel a'i fonitro.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Plas Carew
Uned 5/7
Cefn Coed
Parc Nantgarw
CF15 7QQ

Mewn arolwg o’r eiddo a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn ogystal â hysbysu swyddogion ynghylch y costau a fyddai’n gysylltiedig ag adnewyddu’r ffermdy, pwysleisiwyd natur ansefydlog rhannau o’r eiddo gyda mynediad y tu mewn iddo’n cael ei ystyried yn beryglus.

Ar ôl dadrestru’r eiddo, ac o ystyried cyngor yr arolwg, adolygodd swyddogion drefniadau rheoli’r eiddo a phenderfynwyd mai’r peth mwyaf priodol i’w wneud fyddai dymchwel yr adeilad, gan gael gwared ar y risgiau iechyd a diogelwch a oedd yn gysylltiedig â’i gadw. Yna dymchwelwyd yr adeilad ym mis Medi 2019.

Yn gywir

Jason Thomas
Cyfarwyddwr
Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth